

## Prosiect Teithwyr i'r Cymru - European Travellers to Wales Project

Dinbych -  
Denbigh

Franz von Löher

1846

Wanderung durch  
Nordwales

“Y noson honno, arhosais yn Ninbych, ac roedd fy swper yn cynnwys, yn ogystal â the a ham, cig wedi'i sychu a thri math o fara menyn yn ychwanegol at y cig dafad mynydd gorau, eog yr un mor wych, cimwch yr afon a fyddai wedi llonni calon esgob, a rhyw bryd yn cynnwys cregyn gleision a oedd yn ddieithr i mi.

18 [Gorffennaf 1846]. Cynhelid marchnad yn Ninbych hefyd ac roedd y strydoedd yn llawn o bobl. Dringais at adfeilion prydferth iawn y castell. Roeddent yn gorchuddio holl flaen y mynydd creigiog, a gwyd yng nghanol y dyffryn eang ac sydd felly'n addas ar gyfer cadw golwg ar y wlad o gwmpas. Mae'n parhau'n bosibl ffurfio darlun eglur o ffurf y cyrtiau, y neuaddau a'r siambrau; mae'r capel gyda'u fwâu adfeiliedig yn edrych yn arbennig o ysblennydd. Mae'r olygfa ar bob ochr yn drawiadol, er nad yn amrywiol. Yma y bydd y beirdd a'r telynorion Cymreig yn cynnal eu chwaraeon bob tair blynedd. Ni hoffwn wrando arnynt, oherwydd fe ymddengys nad yw ysbryd cerddoriaeth yn cyfrif y Cymry ymhlith ei annwyl blant.”

“That night I stayed in Denbigh and my evening meal consisted, besides tea and ham, of dried meat and three types of buttered bread in addition to the most excellent mountain mutton, no less priceworthy fresh salmon, crayfish

that would have made a prelate's heart leap, and some dish with mussels unknown to me.

18 [July 1846]. Denbigh too held a market and the streets were alive with people. I climbed up to the exceedingly beautiful castle ruins. They covered the entire front of the rocky mountain, which rises in the middle of the wide valley and so makes it suitable for the surveillance of its surroundings. It is still possible to picture distinctly the courtyards, halls and chambers; the chapel with its ruined arches looks particularly splendid. The prospect on all sides is arresting, albeit not diverse. Up here, the Welsh bards and harpists hold their games every three years. I would not like to listen to them, because it appears the spirit of music does not count the Welsh among its own dear children."

"Die Nacht blieb ich in Denbigh und bekam zum Nacht essen außer Thee und Schinken, gedörrtem Fleisch und dreierlei Butterbrod noch den allervortrefflichsten Berghammel, nicht minder preiswürdigen frischen Lachs, Krebse, die einem Prälaten ins Herz gelacht hätten, und kleines Muschelzeug, welches ich nicht kannte.

Den 18ten [Juli 1846]. In Denbigh war ebenfalls Markt und die Straße mit Menschen besät. Ich stieg zu den überaus schönen Burgtrümmern hinauf. Diese bedecken die ganze Stirn eines Felsberges, der sich mitten in dem weiten Thale und vortrefflich zu dessen Ueberwachung geeignet erhebt. Höfe, Hallen und Gemächer kann man sich noch deutlich vorstellen, namentlich nimmt sich die Capelle in ihren Trümmerbogen gut aus. Die

Aussicht ist nach allen Seiten anziehend, wenn auch nicht abwechselnd. Hier oben wird alle drei Jahre das Preisspielen der wälschen Barden oder Harfner gehalten, ich möchte es nicht anhören, denn der Geist der Musik scheint die Wälschen nicht zu seinen lieben Kindern zu zählen.”

“Ce soir-là, je logeai à Denbigh et mon repas du soir se composa, en plus du thé et du jambon, de viande séchée et de trois types de pain beurré ainsi que de l’excellent mouton de montagne, du saumon frais qui est digne de louanges, d’écrevisses qui auraient fait bondir de joie le cœur d’un prélat, et d’un certain plat à base de moules inconnu pour moi.

18 [juillet 1846]. Denbigh tenait aussi un marché et les rues étaient envahies de gens. Je montai jusqu’aux très belles ruines du château. Elles couvraient entièrement le front de la montagne rocheuse, qui s’élève au milieu de la large vallée et convient ainsi pour la surveillance de ses environs. Il est toujours possible de s’imaginer de manière distincte les cours intérieures, les salles et les chambres ; la chapelle avec ses arches en ruines semble particulièrement splendide. La perspective de tous les côtés est saisissante, même si elle n’est pas diversifiée. Ici, les bardes et harpistes gallois organisaient leurs jeux tous les trois ans. Je ne tiens pas à les écouter, parce qu’il semble que l’esprit de la musique ne compte pas les Gallois parmi ses chers enfants.”

**Prosiect Teithwyr i'r Cymru - European Travellers to Wales Project**

Dinbych -  
Denbigh

Hermann von  
Pückler-Muskau

1828

Briefe eines Verstorbenen

“Mae ochr y bryn wedi ei gorchuddio â thai a chytiau diddim y dref fach druenus, a byddwch yn dringo drwy ei lonydd culion i'r pen uchaf. Bu gŵr bonheddig, a ddywedodd wedyn mai ef oedd llawfeddyg y dref, mor garedig â dangos y ffordd i mi, gan fy nhywys o gwmpas yr adfeilion gyda chwarteisi mawr. Yma mae rhyw fath o gorlan wedi'i lleoli'n rhamantus iawn o fewn y muriau, ynghyd â gardd flodau brydferth iawn gyda golygfa hardd ohoni. Nid yw'r gweddill o'r adeilad anferth hwn ond yn ddrysfa o furiau wedi'u llwyr esgeuluso yn sefyll ymysg tyfiant rhonc o laswellt ac ysgall. Serch hynny, bob tair blynedd cynhelir gŵyl genedlaethol fawr yma – cynulliad beirdd Cymru, sydd, fel yr hen Minnesingers yn yr Almaen, yn ymgynnull yma i roi prawf ar eu crefft. Bydd y buddugol yn ennill cwpan aur; a bydd côr o gant o delynau yn canu ei glodydd ymysg yr adfeilion hyn. Cynhelir y cyfarfod ymhen tri mis, pryd y disgwylir i Ddug Sussex fod yn bresennol.”

“The side of the hill is covered with the ruinous houses and huts of the miserable little town, and you climb through its narrow lanes to the top. A gentleman, who afterwards declared himself to be the surgeon of the town, very kindly showed me the way, and did the honours of the ruins with great politeness. Here is a sort of casino most romantically situated within the walls, and a very pretty flower-garden, commanding a beautiful view. The rest of this vast edifice offers only a neglected labyrinth of walls, standing

amid the rank luxuriance of grass and thistles. Every third year, notwithstanding, a great national festival is held on this spot; – the meeting of Welsh bards, who, like the old German Minnesingers, repair hither to a trial of skill. The victor wins a golden cup; and a chorus of a hundred harps resounds to his fame amid these ruins. The meeting will take place in three months, when the Duke of Sussex is expected to be present.

(Tour in England, Ireland, and France, in the Years 1828 & 1829. With Remarks on the Manners and Customs of the Inhabitants, and Anecdotes of Distinguished Public Characters. In a Series of Letters. By a German Prince. Ed. B –. Vol. 1. London: Effingham Wilson, 1832)”

“An den Seiten des Berges klammern sich ringsum die baufälligen Häuser und Hütten des ärmlichen Städtchens an, und mit Mühe gelangt man durch die engen Gassen zum Gipfel. Ein Herr zeigte mir gütig den Weg, welcher sich mir nachher als den Herrn Stadt-Chirurgus dekouvrierte, und mit vieler Artigkeit die Honneurs der Ruine machte. In ihren Mauern haben sich die Honoratioren ganz romantisch ihr Casino, nebst einem sehr zierlichen Blumengärtchen angelegt, von welchem letztern man eine vortreffliche Aussicht genießt. Der übrige Theil des weitläufigen Schlosses bietet dagegen nur ein verlassenes Labyrinth von Mauern und Grasplätzen dar, wo die Distel wuchert. Alle drei Jahre wird jedoch auf diesem Platz ein großes Nationalfest gehalten – die Versammlung der welschen Barden. Gleich den ehemaligen Minnesängern Deutschlands kommen hier sämtliche Harfner aus Wales zum Wettkampf zusammen. Der Sieger gewinnt einen goldnen Becher, und ein gemeinschaftlicher Chor von hundert Harfen hallt zu seinem Ruhm in den

Ruinen wieder. In drei Monaten sollte die Vereinigung statt finden, zu der man auch den Herzog von Sussex erwartete.”

“Le flanc de la colline est recouvert de maisons dégradées et de cabanes de la pauvre petite ville, et il faut monter à travers les rues étroites pour arriver en haut. Un homme bien mis, qui se fit plus tard reconnaître pour le chirurgien de la ville, eut la bonté de me montrer le chemin, et me fit avec beaucoup de politesse les honneurs de la ruine. C’est ici que se trouve une sorte de casino situé de manière très romantique à l’intérieur de ces murs, ainsi qu’un fort joli parterre de fleurs, d’où l’on jouit d’une vue magnifique. Le reste du vaste château n’offre qu’un labyrinthe abandonné de murailles, qui se trouve parmi la luxuriance de la pelouse et des chardons. Tous les trois ans pourtant on célèbre ici une grande fête nationale; il s’agit de l’assemblée des bardes gallois, qui, semblables aux anciens Minnesänger allemands, se réunissent pour lutter de talent. Le vainqueur reçoit une coupe d’or; et cent harpes font retentir sa renommée parmi ces ruines. Cette assemblée doit avoir lieu dans trois mois, et on y attend le comte de Sussex.”